# CYNGOR SIR Y FFLINT
# 29 MEDI 2020

Cofnodion cyfarfod arbennig o Gyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mawrth 29 Medi 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, Veronica Gay, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Paul Johnson, Joe Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Derek Butler, Ron Davies, David Evans, David Healey, Gladys Healey ac Andy Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 8. COFNODION

Yn amodol ar ddiwygiad gan y Cyng. Owen Thomas, cynigiodd y Cyng. Bithell y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar 18 Chwefror 2020. Eiliwyd hyn gan y Cyng. a chymeradwywyd y cofnodion. Paul Shotton. O ran cofnodion 27 Chwefror 2020, cynigiodd y Cyng. Bithell y dylid eu cymeradwyo ac eiliwyd hynny gan y Cyng. Peers a chymeradwywyd y cofnodion.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid i gofnodion 18 Chwefror 2020, cymeradwyo'r ddwy set o gofnodion fel cofnod cywir.

## 9. DATGAN CYSYLLTIAD

Ailadroddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y cyngor a roddwyd i'r Aelodau yn ystod proses y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r amgylchiadau amrywiol lle ceir cysylltiad sy'n rhagfarnu. Atgoffodd yr Aelodau am natur y cysylltiadau a ddatganwyd pan gymeradwywyd y CDLl i'w Harchwilio gan y Cyhoedd ym mis Gorffennaf 2019.

Ar sail hynny, datganodd yr Aelodau canlynol cysylltiad personol sy'n rhagfarnu a mynegi y byddant yn gadael y cyfarfod cyn yr eitem:

- Y Cyng. Glyn Banks - gyda chysylltiad agos â rhywun sy'n berchen ar safle wedi'i ddyrannu
- Y Cyng. Bob Connah - yn perthyn i feddiannydd tir yn y CDLl
- Y Cynghr. David a Gladys Healey - wedi gwrthwynebu safle yn y CDLl (ddim yn bresennol)
- Y Cyng. Joe Johnson - perchennog tir yn y CDLl
- Y Cyng. Hilary McGuill - yn perthyn i berchnogion tir yn y CDLl
- Y Cyng. Ralph Small - eiddo iddo yn edrych dros un o'r safleoedd ymgeisiol
- Y Cyng. Andy Williams - ei gartref a'i fusnes yn agos at safle ymgeisiol (ddim yn bresennol)

Datganodd yr Aelodau canlynol gysylltiad personol:

- Y Cyng. Christine Jones - wedi cefnogi datblygiad Porth y Gogledd
- Y Cynghr. Paul Cunningham, Michelle Perfect, Vicky Perfect ac Ian Roberts - aelodau o Gyngor Tref y Fflint sydd wedi gwrthwynebu safle ymgeisiol
- Y Cyng. Ted Palmer - ffrind agos i'r Cyng. Joe Johnson
- Y Cyng. Mike Peers - wedi cael gwybod yn ddiweddar bod perthynas pell wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad
- Y Cyng. Kevin Rush - perthynas pell o bosibl yn bwriadu cyflwyno cynlluniau
- Y Cyng. Martin White - ei eiddo â'i gefn at safle yn y CDLl

## 10. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR Y FFLINT - YSTYRIED SYLWADAU AC YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD YNGHYLCH Y DDOGFEN I'W HARCHWILIO GAN Y CYHOEDD A CHYFLWYNO'R CYNLLUN AR GYFER ARCHWILIAD CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau ystyried a chytuno ar ymateb y Cyngor i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori ynghylch y CDLl. Mae hwn yn gam allweddol tuag at gyflawni un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor, sef mabwysiadu'r CDLl ac mae'r ddogfen wedi bod yn destun proses graffu faith gan y Grŵp Strategaeth Cynllunio trawsbleidiol. Un o flaenoriaethau'r grŵp hwn yw gwarchod tir rhwystr glas a ffiniau aneddiadau ble bynnag y bo'n bosibl. Os yw'r Aelodau yn cytuno arno, bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio at ddibenion Archwiliad Cyhoeddus gan Arolygydd Cynllunio annibynnol, gan ddarparu cyfle i dderbyn rhagor o sylwadau yn ôl disgresiwn yr Arolygydd.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth gyflwyniad gan ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Pwrpas
- Y CDLl i'w Archwilio gan y Cyngor, Cynllun y Cyngor

- Prif elfennau strategaeth y cynllun
- Dyraniadau tai y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd
- Ymgynghoriad ynghylch y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd
- Gwaith y Grŵp Strategaeth Cynllunio
- Ystyried sylwadau
- Y prif faterion a godwyd
- Pwysau
- Map rhwystr glas cymharol enghreifftiol
- Cyflwyno'r Cynllun
- Sesiynau briffio ar gyfer Aelodau ac argymhelliad y Cabinet

Amlygodd y cyflwyniad y manteision amrywiol a geir wrth fabwysiadu Cynllun, y dull ar gyfer ymateb i sylwadau a'r gwasgariad eang o safleoedd mewn aneddiadau cynaliadwy - rhai ohonynt yn safleoedd posibl ar gyfer datblygiad cynnar. Elfen allweddol o'r broses oedd cyfraniad y Grŵp Strategaeth Cynllunio at graffu ar y cynnydd a gwneud argymhellion i'r Cabinet, sydd erbyn hyn wedi'u cyflwyno i'r Cyngor er cymeradwyaeth. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth nad oedd Llywodraeth Cymru wedi dod ar draws unrhyw broblem sylfaenol gyda chadernid y Cynllun ac nad oedd darparwyr isadeiledd/budd-ddeiliaid allweddol wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad mawr. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatrys pryderon perygl llifogydd ar bum safle cyflogaeth bychan. Yn fras, ar ôl ystyried yr holl sylwadau a'r dystiolaeth, nid oes newidiadau sylweddol yn cael eu hargymell ar gyfer y Cynllun dim ond mân waith golygu a newid ambell i eiriad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'u tîm, ynghyd ag aelodau'r Grŵp Strategaeth Cynllunio, am eu gwaith ar y mater hwn.

Yn ystod yr eitem, diolchodd nifer o Aelodau i'r swyddogion ac i aelodau'r Grŵp Strategaeth Cynllunio am eu hymrwymiad i'r broses faith o gynhyrchu cynllun cadarn.

Fel Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Cynllunio, cynigiodd y Cyng. Bithell yr argymhellion - sydd wedi'u cefnogi gan y Cabinet, ac amlygodd bwysigrwydd bwrw ymlaen â mabwysiadu CDLl ar gyfer Sir y Fflint.

Fel Is-Gadeirydd y Grŵp Strategaeth Cynllunio, eiliodd y Cyng. Peers y cynnig ac ategu'r sylwadau cadarnhaol am waith y rheiny sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r broses. Cyfeiriodd at wrthdaro posibl gyda'r ymateb i'r cynnig i newid safle ymgeisiol yn safle tai a gofynnodd a oes modd adolygu hyn cyn i'r Cyngor gyhoeddi ei ymateb llawn. Diolchodd i'r swyddogion am egluro'r newidiadau i'r rhwystrau glas a gofynnodd a oes modd i'r Aelodau wneud sylw ar y mapiau cymharol hynny.

Er bod croeso i Aelodau ofyn cwestiynau am yr adolygiad o'r Rhwystrau Glas, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth nad oes modd estyn cyfnod yr ymgynghoriad. Bydd y mapiau cymharol yn cael eu cyhoeddi i gefnogi unrhyw sylw a gyflwynwyd gan drydydd parti yn ystod y cam archwilio. Cytunwyd y byddai'r swyddog yn cysylltu â'r Cyng. Peers o ran ei bwynt cyntaf gan ddarparu eglurhad hytrach na newid ymateb y Cyngor.

Yn dilyn sylwadau gan y Cyng. Dunbar, siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth am adolygiad cynhwysfawr y Grŵp Strategaeth Cynllunio o rwystrau glas, a oedd yn ceisio diogelu ardaloedd fel Parc Gwepra. Bu iddo hefyd ddarparu eglurhad ar gyflwyno polisi penodol ar Dai Amlfeddiannaeth yn y CDLl.

Dywedodd y Cyng. Richard Jones bod yr oedi wrth fabwysiadu CDLl - nad yw'n adlewyrchu gwaith yr Adran Gynllunio - wedi arwain at ddefnyddio Cynllun Glannau Dyfrdwy fel dogfen i danategu ac, o ganlyniad, bod y CDLl wedi'i wanhau. Dywedodd na ddylai Cynllun Glannau Dyfrdwy, nad oedd wedi bod yn destun ymgynghoriad eang, fod wedi'i ddefnyddio i hysbysu'r CDLl a chredodd fod dogfennau eraill a ddefnyddiwyd fel tystiolaeth ar gyfer y CDLl yn ymddangos yn rhagfarnllyd tuag at ardal Glannau Dyfrdwy. Am y rheswm hwnnw, nid oedd yn gallu cefnogi'r argymhelliad cyntaf.

Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod Cynllun Glannau Dyfrdwy yn un o sawl cynllun a strategaeth berthnasol gyhoeddus a oedd wedi'u nodi'n ddogfennau cyfeiriol ar gyfer rhoi ystyriaeth berthnasol i gadernid y CDLl. Cyfeiriodd at y gwasgariad eang o safleoedd wedi'u dyrannu yn y CDLl ar hyd a lled Sir y Fflint.

Er bod y Cyng. Heesom yn cytuno gyda rhai rhannau o'r CDLl, dywedodd fod y CDLL yn canolbwyntio ar Borth y Gogledd a Warren Hall ac roedd yn pryderu nad oedd ardaloedd yng ngorllewin y sir, yn cynnwys Mostyn, wedi'u cynrychioli. Dywedodd nad yw materion fel trin tir cyflogaeth, amddiffynfeydd llifogydd a newid hinsawdd wedi derbyn digon o sylw.

O ran y pwyntiau a godwyd, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod nifer o safleoedd strategol wedi bodoli ers peth amser a oedd wedi'u hadlewyrchu'n briodol yn y Cynllun a bod pwysigrwydd Dociau Mostyn wedi'i gydnabod yn y Map Cynigion. Eglurodd nad yw'r trafodaethau sy'n parhau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, i ddatrys y materion tir cyflogaeth sy'n gysylltiedig â phum safle bach, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion y cynllun na'i gadernid.

Wrth groesawu'r adroddiad, dywedodd y Cyng. Gay ei bod yn siomedig iawn nad yw Saltney yn cael sylw priodol yn y CDLl a dywedodd fod angen mwy o fuddsoddi yn yr ardal honno. Roedd hefyd yn rhannu'r un pryderon â'r Cyng. Dunbar ynghylch Tai Amlfeddiannaeth.

Croesawodd y Cyng. Christine Jones gynnydd datblygiad Porth y Gogledd fel safle strategol pwysig a all ddod â budd i ardaloedd eraill yn y sir a'r rhanbarth cyfan.

Cyfeiriodd y Cyng. Tony Sharps gam nesaf y broses a mynegodd bryderon ynghylch yr isadeiledd sydd ei angen i gefnogi datblygiadau tai. Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth nad oes cwmpas i gyflwyno safleoedd newydd ar y cam hwn ac y bydd yr Arolygydd Cynllunio yn adolygu'r sylwadau a'r dystiolaeth ategol a gyflwynwyd. Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y bydd cysylltiadau â darparwyr isadeiledd allweddol yn parhau er mwyn darparu datganiadau tir cyffredin ar y cam archwiliad cyhoeddus. O ran cyfadeilad Neuadd y Sir, dywedodd y Prif Weithredwr nad oes defnydd cytunedig ar gyfer y rhan honno o'r safle yn dilyn gwaith dymchwel

Camau 3 a 4, ac y bydd angen gwneud penderfyniad yn y dyfodol wrth i'r cyfle godi.

Canmolodd y Cyng. Ellis y gwaith sydd wedi'i wneud ond nid oedd yn cefnogi'r Cynllun gan ei bod yn teimlo na allai'r isadeiledd ffyrdd gefnogi'r safleoedd datblygu arfaethedig ym Mwcle.

Dywedodd y Cadeirydd, er ei bod yn cefnogi'r ddau argymhelliad, y bydd yn mynegi pryder ynghylch un agwedd ar safle ymgeisiol yn ystod cam nesaf y broses.

Yn dilyn y drafodaeth, awgrymodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) na ddylid newid yr argymhellion yn yr adroddiad ond y dylai Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) gyflwyno adroddiad arall i'r Aelodau ystyried a fyddai'n egluro'r cwmpas cyfyngedig sydd ar gael i wneud unrhyw newid i'r geiriad heb effeithio ar sylwedd y cynllun.

I adlewyrchu rhai o'r pryderon a godwyd yn ystod yr eitem hon, gwahoddwyd Aelodau i bleidleisio ar bob argymhelliad yn eu tro. Gan fod yr argymhellion wedi'u cynnig a'u heilio eisoes, cafwyd pleidlais a chymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cyngor yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd (atodiad 1) ac yn cefnogi'r ymatebion a argymhellir, ac yn cytuno ar eu hanfon i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio eu hystyried fel rhan o'r Archwiliad Cyhoeddus; a

(b) Bod y Cyngor yn cytuno i gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015-2030) i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio at ddibenion Archwiliad Cyhoeddus.

## 11. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a gorffennodd am 3.50pm)

………………………………………

**Y Cadeirydd**